# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 16.03.17

**Yn bresennol**:

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**
**Y Cynghorydd Eirwyn Williams (is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Alan Jones Evans, Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Hefin Williams ac R H Wyn Williams.

**Yr Eglwys Gatholig:** Rita Price

**Undebau Athrawon:** Dilwyn Ellis Hughes a David Healey

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitemau 4 a 5 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
Garem Jackson, Swyddog Addysg Ardal
Bethan Eleri Roberts, Swyddog Rheoli Perfformiad

**Ar gyfer Eitem 6 isod:**
Y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Linda Ann Wyn Jones, Peter Read a Gareth A. Roberts, Ann Williams, W. Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Llongyfarchwyd y Pennaeth Addysg ar ei benodiad diweddar fel Cyfarwyddwr GwE gan nodi y bydd yn golled i Wynedd ar ei ôl ond yn dymuno pob llwyddiant iddo i'r dyfodol.
(b) Diolchodd y Cadeirydd i'w chyd-aelodau a swyddogion am gefnogaeth a'u hymroddiad i waith y Pwyllgor Craffu hwn.
(c) Dymunwyd yn dda i bawb oedd yn sefyll etholiad ym mis Mai.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Gareth James, Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu fuddiant yn Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg, oherwydd bod ei ferch yn athrawes Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Bethel, Caernarfon.

Roedd y swyddog o'r farn ei fod yn fyddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem dan sylw.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2017 yn ddarostyngedig i'r cywiriadau canlynol:

**(a) Eitem 2 (a) - Datganiad gan y Cadeirydd**

Mynegodd y Cynghorydd Alwyn Griffith  y dylai'r cofnod gyfeirio'n benodol at y ffaith bod y Pennaeth Addysg wedi ei benodi i reoli GwE yn rhan amser dros dro yn ogystal â chyfeirio at y gwaith o ymchwilio i drefniadaeth GwE.

**(b) Eitem 6 – Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg – Adroddiad Cynnydd**

Mynegodd y Cynghorydd Alwyn Griffith:

(i) ei ddymuniad i gynnwys y ffaith ei fod wedi nodi yn y cyfarfod diwethaf wrth drafod cyfeiriadau a gwahanol sylwadau yn adroddiad Mr Alun Charles, Ymgynghorydd allanol, yn deillio o'i astudiaeth i weithrediad polisi iaith y Cyngor, "ei fod yn wrthun y gellir cael addysg Gymraeg o'r Cyfnod Sylfaen hyd at radd yng Nghaerdydd ond ni cheir hyn yn Wynedd".

(ii) ei anfodlonrwydd i ddefnydd y gair "cymeradwyo" yn y penderfyniad ac mai "derbyn" yr adroddiad fyddai mwyaf priodol oherwydd nad oedd yr astudiaeth uchod wedi ymestyn y ddadl o gwbl ond yn hytrach yn cyfiawnhau'r "status quo".

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol mai ei ddealltwriaeth ef ydoedd bod y Pwyllgor wedi diolch am yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion heblaw am un argymhelliad sef 9.1 yn ymwneud â diffinio ysgolion uwchradd Gwynedd yn ôl iaith y cyfrwng addysg a dysgu dan un categori, sef ysgolion dwyieithog -  a bod angen gwaith pellach yn y maes hwn.  Fe brofwyd hyn gyda'r Pwyllgor Craffu ar y diwrnod ac fe gymeradwywyd cynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu ymateb i'r sylwadau uchod a phe na fyddir yn cyflwyno cynnig gwahanol roedd penderfyniad y cyfarfod diwethaf ar y mater hwn yn gywir yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Craffu ar y diwrnod hwnnw.

Yn dilyn trafodaeth pellach, cadarnhaodd y Pwyllgor Craffu bod y cofnod yn gywir.

**(c) Eitem 6 (ii) pwynt (i)**

Diddymu'r geiriau "Teimlwyd nad oedd Popdy – Canolfan Iaith Bangor ...... a newid geiriad y sylw wnaed i egluro ac i ddarllen:

"Mai swyddogaeth Popdy – Canolfan Iaith Bangor, yw datblygu menter iaith gymunedol i gyfarch yr iaith ymhob mathau o gyd-destunau.  Nodwyd mai pwynt y drafodaeth ydoedd bod angen Canolfan Drochi yn ymwneud ag addysg yn benodol ym Mangor".

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Addysg gan yr Aelod Cabinet Addysg gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

(i) Perfformiad

- Cynnydd sylweddol yn y dangosydd TL2+

- Gwelliant ym mherfformiad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim a'r bwlch wedi lleihau rhwng dysgwyr PYD / Dim PYD
- Perfformiad dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn enwedig yn y dangosydd pwnc craidd
- Cynnydd mewn presenoldeb dysgwyr yn yr uwchradd a'r cynradd

O safbwynt datblygu perfformiad, nodwyd bod angen:

- Rhoi sylw buan i'r Cyfnod Sylfaen
- Gwella perfformiad yn y Gymraeg ymhob cyfnod allweddol
- Gwella perfformiad dysgwyr Prydau Ysgol am Ddim
- Gwella perfformiad dysgwyr ôl-16 mewn cyrsiau penodol

(i) Darpariaeth Addysg

- Hyrwyddo lles a diogelwch disgyblion
- Cefnogaeth i arweinwyr a rheolwyr
- Modelau arweinyddiaeth a fydd yn cynnig amodau i dynnu pwysau enfawr oddi ar Benaethiaid
- Proffil arolygiadau wedi amlygu gwelliant gyda 'run Ysgol mewn categori statudol
- Cyflwyno rhaglen Moderneiddio Addysg ar gyflymder da
- Polisi Iaith y Sir – sicrhau adnoddau i ehangur'r Siarter Iaith i'r sector uwchradd
- Gwella seilwaith TGCh ymhellach
- Data Perfformiad – tracio yn holl bwysig i fedru adnabod disgyblion sydd yn llithro
- Cefnogi llywodraethwyr i fod yn effeithiol

Cyfeiriwyd at yr argymhellion o safbwynt sicrhau'r safonau uchaf posibl ymhob cyfnod allweddol a thynnwyd sylw at yr hyn a ofynnir i GwE ei wneud ar ran yr awdurdod addysg o ran y ddarpariaeth addysgu, strategaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynwysiad ac arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) O brofiad diweddar o Aelodau Etholedig yn cysgodi Ymgynghorwyr Her GwE, gwelwyd tystiolaeth bod ysgolion yn derbyn llawer o gymorth a chefnogaeth gan GwE. Nodwyd ymhellach bod y profiadau wedi bod yn fuddiol iawn i Aelodau ac i uchafu eu dealltwriaeth o waith a threfniadaeth GwE

(ii) Drwy fynd oddi wrth ddefnyddio'r gair "herio" gwelir bod ysgolion yn barod i gydweithio a nodwyd pwysigrwydd parhau i wella'r berthynas rhwng GwE a'r ysgolion

(iii) Bod athrawon y sir i'w llongyfarch am y safonau da.

Gofynnwyd am elgurder ar rai o'r pwyntiau isod ac sydd angen sylw pellach ac ymatebodd y Pennaeth Addysg iddynt:

(iv) Croesawyd yr adroddiad cynhwysfawr gerbron a chanmolwyd y cynnydd a wnaed ond pryderwyd bod rhai ysgolion yn y category coch a gofynnwyd pa gamau a wneir i gefnogi'r ysgolion hyn?

- *Bod diwylliant yr adroddiad gerbon yn adnabod cryfderau a hefyd yn adnabod lle i wella ac o ran y broses, fel y byddir yn datblygu gellir mynd i'r rafael a'r materion hynny lle mae angen gwella. Gwelir yma ganfyddiadau fydd yn ffurfio manyleb ar gyfer cynllun busnes rhwng yr awdurdod a GwE ar gyfer y flwyddyn i ddod*

- *Bod yr adroddiad yn adnabod cryfderau'r Gwasanaeth ac yn gosod sail gadarn i weithio fel Tim ac mewn partneriaeth. Nodwyd ymhellach bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn wedi ychwanegu gwerth drwy herio a chraffu'n effeithiol.*

- *Beth bynnag fydd y drefn bydd wastad ysgolion da, ac ysgolion sydd angen fwy o gefnogaeth a nodwyd bod gweithdrefnau yr awdurdod a GwE wedi bod yn dda yn hyn o beth. Fodd bynnag, y gamp ydoedd datblygu arweinwyr canol i fod yn arweinwyr da.*

(v) Pryderwyd am rôl llywodraethwyr yn sgil y newidiadau a gofynion fydd arnynt i'r Dyfodol.

*Cydnabuwyd bod rol llywodraethwyr yn heriol fel ag y mae a bod angen amlygu'r elfennau sydd angen i'w cefnogi nid yn unig yn lleol ond yn rhanbarthol. Nodwyd bod yr ymgynghoriad presennol ar gyfrifoldebau a threfniadau llywodraethwyr yn creu pryder nad oes ddigon o sylw i'r elfen wledig a phe byddir yn hepgor yr elfen o ddemocratiaeth leol byddai hyn yn gadael bwlch.*

(vi) Pa gynlluniau sydd ar y gweill gan y Gwasnaeth Addysg i wella'r Cyfnod Sylfaen

*Bod pryder am berfformiad y Cyfnod Sylfaen yn rhanbarthol a nodwyd sawl elfen o ran ymateb i'r hyn y gellir ei gyflawni megis:*

- *Asesu plant yn gyson*
- *Asesu'r safonau*
- *arweinyddiaeth*

*Nodwyd ymhellach bod engreifftiau sydd wedi cael rhagoriaeth yn y Cyfnod Sylfaen gyda'r perfformiad yn gyson yn y chwarteli uwch ac y byddai'n syniad ymchwilio ar ragoriaethau tu hwnt i'r sir.*

(vii) Pwysigrwydd i ymateb i ymddygiadau disgyblion yn enwedig yn dilyn colli darpariaeth Canolfan Brynffynnon lle gwelwyd budd o weithrediad y ganolfan

*Hyderir y gellir datrys y pryder ynglyn â chefnogaeth ymddygiadau yn fuan.*

(viii) Tra'n derbyn bod cydweithio Ysgol i Ysgol yn digwydd rhaid wynebu'r sefyllfa bod ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am ddisgyblion

*Yng nghyd-destun cyllidebau, bod y Cabinet wedi cymeradwyo* cynllun pontio dros dro ar gyfer cynorthwyo'r sector uwchradd.

(ix) Nodwyd yng nghyfarfod Ffederasiwn Llywodraethwyr Ysgolion Gwynedd yn ddiweddar bod dysgwyr ôl-16 ardal Meirion/Dwyfor yn gorfod talu £100 y tymor am gludiant i'r sefydliadau addysgol a bod dysgwyr ardal Arfon yn derbyn cludiant am ddim.

(x) Bod gan Wynedd ormod o bolisiau o fewn y Sir ac o'r herwydd yn ei wneud yn anodd i graffwyr fedru eu craffu yn effeithiol e.e. un ysgol o fewn ardal Meirion/Dwyfor yn cynnig darpariaeth 6ed dosbarth a'r gweddill ddim.

*Bod polisiau ar draws y Sir yn eitha cyson ond bod yr is-adeiledd yn wahanol o ran 6ed dosbarth ac y byddai'n ofynnol cynnal trafodaethau pellach o ran ansawdd addysg ôl-16 yn y Cyngor newydd.*

(xi) Iaith Gymraeg – nodir yn yr adroddiad y bydd Ysgol Bro Idris yn ysgol ddilynol ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3 – 16 oed ond yn nalgylch y Berwyn nodir y bydd yr ysgol yn chwarae rhan allweddol mewn hyrwyddo'r Gymraeg. Gofynnwyd pam bod yr amgylchiadau wedi newid?

*Cytunwyd bod yr Iaith Gymraeg yn fater corfforaethol. Nodwyd ymhellach bod angen eglurder yn genedlaethol o rôl addysg i hyrwyddo'r gymraeg ac fe fydd yn rhaid wastad cael trafodaeth ynglyn â phwy sydd yn yn ei berchnogi. Rhaid bod yn hollol glir bod yr Iaith Gymraeg yn rhan o strategaeth gorfforaethol yn ariannol.*

(xii) Siarter yr Iaith Gymraeg – nodwyd mai un o lwyddiannau'r Siarter ydoedd bod y Cyngor a'r Llywodraeth wedi cymryd perchnogaeth o'r dechrau ac ni ddylai'r arian ar gyfer penodi swyddogion eraill ddod o'r gyllideb addysg.

(xiii) Yn sgil newidiadau i fanylebau newydd TGAU, gofynnwyd pa mor hyderus oedd y Gwasanaeth Addysg bod yr ysgolion wedi cynllunio'n ddigonol at y manylebau diwygiedig ac y bydd y canlyniadau yr un mor dda â chanlyniadau'r haf diwethaf?

Pryderwyd nad oedd trafodaethau yn digwydd yn eang gyda Phenaethiaid Adran ynglyn a'r manylebau.

- *Roedd y Pennaeth Addysg o'r farn bod trothwy lefel TL2+ yn mynd i barhau I gario pwysau a grym. Fodd bynnag wrth gyflwyno unrhyw drefn newydd, roedd yn anodd iawn rhagdybio a gweld beth fyddai'r patrwm. O safbwynt paratoi ar gyfer y diwygiadau yn y manylebau, deallir bod athrawon wedi bod yn rhedeg 2 fanyleb. Amlygwyd pryder gan y Pennaeth Addysg o'r newidiadau yng nghyd-destun y cynnig fyddai ar gael i ddysgwyr bregus a dysgwyr gyda lleiaf o allu a bod y manylebau yn crynhoi cyfres o gymwysterau tuag at plant canolig eu gallu a gallu uwch. Rhagwelir nad oedd y manylebau yn cynnig cymwysterau addas priodol i bobl ifanc sydd yn chwarae rhan bwysig yn y cymunedau a phosibilrwydd bod y newidiadau yn gwneud ysgol yn le anodd iawn iddynt fynychu.*

- *O safbwynt hyfforddiant i athrawon ynglyn â'r newid i'r manylebau, sicrhawyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd rhwng yr ymgynghorwyr â phenaethiaid adrannau ysgolion ynglyn â haenau o bapur arholiad ond ei bod yn anodd ar hyn o bryd hyd nes y gwelir y manylebau a byddai'n rhaid medru dadansoddi set arall o ganlyniadau er mwyn gweld yr union elfennau manwl o baratoi.*

(xiv) Bod angen gwella y rhwydwaith TGCh yn y sector uwchradd. Deallir bod cyflenwad o gyfrifiaduron i ddisgyblion y sector cynradd yn dda iawn ond nid oes dilyniant pan maent yn symud i'r uwchradd.

*Bod yn rhaid ystyried is-adeiledd rhwydwaith TGCh yn gorfforaethol ac atgoffwyd y Pwyllgor bod Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg yn ymchwilio i ddarpariaeth CYNNAL ac efallai bod angen buddsoddiad ehangach i'r is-adeiledd ac a*

*yw'r ddarpariaeth / systemau ddigon cyfoes i fedru rhoi y sgiliau perthnasol i bobl ifanc i'r dyfodol.*

(xv) Nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at blant abl a thalentog. Nodwyd bwysigrwydd i gadw ysgolion rhag llithro ond yr un pryd rhaid ymestyn at uchelgais a bod yn well.

*Nodwyd mai dyma yw her y gwasaneth a chryfhau perfformiad A* a A a darparu ysgolion i fod y gorau*

(xvi) Pwysigrwydd i edrych ymlaen i'r dyfodol a'r her i Aelodau ydoedd toriadau i gyllidebau ysgolion ynghyd a diffyg athrawon ar draws Gogledd Cymru. Os na fyddir yn mynd i'r rafael â hyn rhagwelir y bydd mwy o ysgolion yn y categori coch mewn 4 / 5 mlynedd.

- *Cydnabuwyd bod prinder athrawon a sicrhawyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndwr ar gyfer denu darpar athrawon.*
- *Yn ogystal, nodwyd bod y 22 awdurdod yng Nghymru wedi lansio gwefan fel dull i ddenu mwy o athrawon i fewn i'r gyfundrefn.*
- *Awgrymwyd y byddai'n rhaid ystyried ac edrych ar fodel fyddai'n cynnig "cronni staff" lle gallent bontio rhwng mwy nag un ysgol.*
- *Yr her ydoedd ceisio cael ysgolion i beidio edrych yn fewnol a chydweithio yn barnteriaethol gyda'i gilydd.*

(xvii) Pryderwyd am faint dosbarthiadau a chyfeiriwyd at engraifft gan Aelod yn lleol lle roedd 37 o blant mewn un dosbarth ac nad oedd hyn yn gynaliadwy.

*Mewn ymateb, bod yr uchod yn rhan o drafodaeth leol a chydnabuwyd bod cyllidebau yn dynn ac unwaith mae dosbarthiadau yn cyrraedd ffigwr penodol mai'n anodd i athrawon ac yn golygu mewn rhai amgylchiadau grwp arall o ddisgyblion o fewn dosbarth. Ychwanegwyd bod y polisi llefydd gweigion yn derbyn sylw cenedlaethol.*

(xviii) Croesawyd bod y Cyfnod Sylfaen yn mynd i gael sylw pellach a'r angen i ddarparu cyfleon yn strwythuredig.

(xix) Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â disgyblion yn gadael ysgol heb gymhwyster nodwyd bod y rhagolygon ar gyfer eleni yn sylweddol is.

(xx) Pwysigrwydd bod diffiniad Canolfan Drochi yn gwbl eglur a bod y math yma o Ganolfan yn hynod bwysig i Bangor

(xxi) O safbwynt addysg gartref roedd yr adroddiad yn cyfeirio at blant sy'n methu mynd i'r ysgol a phlant gyda salwch corfforol /meddygol. Yng nghyd-destun y garfan o blant sydd yn methu mynd i'r ysgol nodwyd bod angen trafodaeth rhwng y Gwasanaeth Iechyd er mwyn newid geiriad y datganiadau.

(xxii) Ni ddylai plant gydag anghenion addysg ychwanegol gael ei hamddifadu o gyfle i fod yn ddwyieithog ac yn lleihau cyfloedd iddynt o fewn cymunedau.

**Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Addysg a oedd nodi cryfderau yn y ddarpariaeth addysg ynghyd â meysydd i'w datblygu ymhellach.**

Cymerodd yr Aelod Cabinet y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i'r Pennaeth Addysg am ei ymroddiad a'i waith clodwiw i'r Gwasanaeth Addysg dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf ac o'r adroddiad cynhwysfawr gerbron roedd yn amlwg bod y Gwasanaeth wedi symud ymlaen, gyda'r Pennaeth wedi adeiladu tim cadarn o fewn yr Adran a'r ysgolion. Dymunwyd y gorau iddo yn ei swydd newydd gyda GwE.

## 5. ADOLYGIAD GwE

Cyflwynwyd adroddiad ar ganfyddiadau'r adolygiad a gomisiynwyd o drefniadau gweithredu GwE.

Esboniodd y Pennaeth Addysg bod ymadawiad Rheolwr Gyfarwyddwr blaenorol GwE wedi cynnig cyfle i adolygu effeithiolrwydd a chysondeb yr arfer bresennol o ran gwella ysgolion y rhanbarth a hefyd i ymchwilio pa mor addas i bwrpas oedd trefniadau arwain a llywodraethu.

O'r dystiolaeth gwelwyd bod:

- Aneglurder o ran cyfeiriad strategol GwE
- Strwythur atebolrwydd presennol ar lefel swyddogion yn aneglur
- Anghysondeb ym mherfformiad awdurdodau unigol
- Angen newid y model presennol ar gyfer y sector uwchradd i ffocysu ar CA4
- Asesiadau athrawon yn anghyson ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol
- Angen strategaeth glir ar gyfer gweithio gyda'r sector Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

Mewn ymateb i ymholiadau gan Aelodau unigol, nododd y Pennaeth Addysg fel a ganlyn:

- Bod rhai prosesau o ran yr argymhellion yn rhwydd i'w cyflawni ac mai'r gwaith mwyaf ydoedd mynd i'r rafael â'r anghysondebau
- Nodwyd bwysigrwydd i rannu arferion da o awdurdod i awdurdod.
- O ran capasiti GwE, byddai'n rhaid ystyried beth fyddai angen i gefnogi ysgolion a rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau tim o unigolion sydd yn gallu cyflawni blaenoriaethau.
- O safbwynt y tymor hir, ni ragwelir y byddir yn creu un gwasanaeth ar draws y 6 awdurdod

**Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am yr adroddiad a dymuno'n dda i'r Pennaeth Addysg i'r dyfodol yn ei swydd fel Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.**

## 6. YMCHWILIAD CRAFFU DARPARIAETH GOFALWYR

Cyflwynwyd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu i'r ddarpariaeth Gofalwyr ac fe gymerodd Cadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd R H Wyn Williams, y cyfle i ddiolch i'r aelodau a swyddogion canlynol am eu cyfraniad i'r adroddiad cynhwysfawr gerbron:

Y Cyng. E. Selwyn Griffiths
Y Cyng. Siân Wyn Hughes
Y Cyng. Linda Ann Wyn Jones
Y Cyng. Eryl Jones-Williams
Y Cyng. Ann Williams

Y Cyng. Eirwyn Williams

Gareth James – Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu
Bethan Adams – Swyddog Cefnogi Aelodau

Ymhelaethodd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu bod y gwaith ymgymerwyd gan yr Ymchwiliad yn waith cryno ond er hynny yn cynnwys llawer o wybodaeth defnyddiol. Tynnwyd sylw RRbod 227 o unigolion wedi ymateb i holiadur manwl ac fod hyn yn gymorth i roi hygrededd i ganfyddiadau'r Ymchwiliad. Nodwyd bod cyfraniad oddeutu 20 unigolyn a gyfwelwyd wedi bod yn werthfawr iawn a bod yr Ymchwiliad yn croesawu'r cyfle i gydweithio gyda'r Weithrediaeth o ran datblygu polisi a fydd yn cyfrannu at wella'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr yn y Sir.

Mewn ymateb, diolchodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc am y gwaith gyflawnwyd gan yr Ymchwiliad ac fe nododd y prif bwyntiau canlynol

(i) Nad oedd yn hollol eglur os oedd pob un o'r argymhellion yn cael eu cyfeirio at 2 Aelod Cabinet sef Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc ac Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant.

(ii) O safbwynt argymhelliad 1 tra'n cytuno bod llawer o waith i'w gyflawni nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i geisio adnabod y gofalwyr cudd.

(iii) Yng nghyd-destun argymhelliad 4, nodwyd bod angen sylw o ran cael y darlun ehangach ond cwestiynwyd a fyddai comisiynu gwaith yn cyflawni hyn. Hyderir y gellir rhannu / hyrwyddo gwybodaeth yn fwy effeithiol a thrwy hyn y byddai gennym well trefniadau ar gyfer adnabod y gofalwyr.

(iv) O ran ymgysylltu â phawb ac yn enwedig rhieni plant anabl, nodwyd bod angen mwy o waith yn hyn o beth.

Amlygwyd y pwyntiau ychwanegol isod gan Aelodau unigol:

- Er bod yr ymchwiliad wedi ei gyflawni mewn cyfnod byr, croesawyd mwy o ymchwiliadau o'r fath i'r dyfodol.
- Pryderwyd am y toriadau i wasanaeth cerbydau i gario unigolion am ofal ysbaid a nodwyd enghraifft megis Cartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis.
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn ddwyieithog ac oni fyddai'n berthnasol i Bwyllgor Iaith y Cyngor ymgymryd âg ymchwiliad pellach yn hyn o beth.
- Diolchwyd i'r Adran am y gwariant ar gyfer estyniad yn Llys Cadfan, Tywyn ar gyfer gwasanaeth gofal dydd ac ysbaid.
- Dylid cydweithio'n agos gyda Cholegau lleol i hyrwyddo gyrfa ym maes gofal.
- Bod ymyrraeth buan yn holl bwysig ac y dylid cydweithio mewn partneriaeth gyda asiantaethau / awdurdodau fel y gellir cyflwyno dadleuon ar y cyd i'r Llywodraeth i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ymateb i sefyllfaoedd.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:

(a) Bod yr Adran wedi edrych ar ddefnydd effeithiol y fflyd cerbydau a thrwy wneud hyn darganfuwyd nad oedd parhau defnyddio rhai ohonynt yn gynaliadwy. O'r herwydd, newidiwyd trefniadau o ran y cerbydau, ond prysurwyd i nodi nad oedd defnydd cerbyd yn amharu ar allu unigolion i dderbyn gofal ysbaid.

(b) O ran y maes plant, atgoffwyd y byddai canolfan gofal ysbaid yn agor yn fuan ar safle Ysgol Hafod Lon a sicrhawyd y byddir yn anfon gwahoddiad i Aelodau i'r agoriad swyddogol yn dilyn derbyn cadarnhad o'r cofrestriad.

Nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:

- O berspectif oedolion, bod llawer o waith i'w gyflawni a bod ymchwiliad wedi amlygu bylchau sydd angen mwy o waith ymarferol neu gwaith ymchwil pellach.
- O ran capasiti i weithio ar yr argymhellion, byddai'r Adran yn gwerthfawrogi pe byddai elfen o flaenoriaethu – ond rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Adran yn rhoi sylw i'r holl argymhellion drwy waith sydd eisoes yn digwydd. Nododd bod cyflymder capasiti i ymateb i'r argymhellion yn mynd i amrywio.
- Hyderir y bydd gwaith IAA yr Adran Plant a Phobl Ifanc yn symud yn ei flaen ynghynt na'r gwaith yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac os y gellid cael y gyfundrefn IAA yn iawn, fe fydd yn gwneud cymaint o wahaniaeth nid yn unig i'r defnyddwyr ond i'r gwasanaeth hefyd. Bydd yn rhaid dysgu wrth arbrofi a sicrhau rhannu gwybodaeth mewn lleoliadau cyhoeddus fel bo unigolion yn medru hunan wasanaethu os yn bosib cyn cysylltu â'r Adran.
- Cydnabuwyd bod y ddarpariaeth iechyd meddwl angen sylw ac yn heriol yn bennaf oherwydd aneglurder ynglyn â'r math o wasanaeth sydd ar gael gan y Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol. Nidoedd yr elfennau integreiddio yn eu lle ar hyn o bryd a bod hynny yn gam allweddol i fedru symud ymlaen.

I ddilyn, cafwyd trafodaeth ynglyn a'r angen i flaenoriaethu'r argymhellion ac roedd consensws barn ymysg Aelodau i'w cymeradwyo a'u blaenoriaethu fel a ganlyn:

Argymhelliad 4
Argymhelliad 6
Argymhelliad 8

Hefyd, nodwyd bod argymhellion 1 a 2 yn bwysig ac yn ei weld fel sail ac yn ddatblygiad o sut i ymgysylltu hefo gofalwyr ifanc a gofynnwyd sut i ddatblygu methodoleg i gysylltu hefo gofalwyr na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a chymeradwyo'r argymhellion cyfan ond gofyn i'r Aelodau Cabinet roi blaenoriaeth i ddatblygu'r canlynol gyntaf:**

**Argymhelliad 4**
**Argymhelliad 6**
**Argymhelliad 8**

**(b) Cadw golwg ar ddatblygiadau'r argymhellion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 1.00 p.m.